Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5
Swyddfa Deddfwriath
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd CF99 1NA

2 Mawrth 2009

Annwyl Syr / Madam

Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Yr Iaith Gymraeg) 2009

Fel tystiolaeth i'ch pwyllgor ynglyn â'r diffyg effeithiolrwydd o'r Ddeddf Iaith bresennol, hoffwn gyflwyno'r lluniau yma, tynnwyd yn ddiweddar yn Swyddfa'r Post, Llangefni sef un o drefi Cymreigiaf Gymru. Fel y gwelwch nid oes fawr o ddefnydd o'r Gymraeg er bod Cynllun Iaith Swyddfa'r Post (paratowyd dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993) yn datgan yn eglur:

"Rydym yn arddangos arwyddion gwybodaeth gyhoeddus dwyieithog ac arwyddion hunaniaeth dwyieithog ar du allan ein hadeiladau yng Nghymru ac yn y mannau mewnol hynny y derbynnir y cyhoedd iddynt fel arfer."

Pan ysgrifennais at Swyddfa'r Post Llangefni i bwyntio allan eu bod yn trorri'r Deddf uchod gefais ateb uniaith Saesneg yn ôl yn dweud *"unfortunately you have not provided an English version"* (gweler yr amgaeedig) er bod y polisi uchod hefyd yn mynd ymlaen i addo:

"Byddwn yn defnyddio'r Gymraeg mewn unrhyw ohebiaeth sy'n deillio o lythyr, cyfarfod neu sgwrs ar y ffôn â chwsmer sy'n defnyddio'r Gymraeg neu os yw'r cwsmer wedi nodi eisoes ei fod neu ei bod yn dymuno gohebu yn y Gymraeg."

Os mae corff cyhoeddus yn gallu anwybyddu'r deddfwriaeth presennol nid oes fawr o syndod bod archfarchnadoedd fel Iceland yn gallu agor siopau mewn ardaloedd Cymraeg heb yr un gair o Gymraeg ar arwyddion neu bod cwmnïau fel Vodaphone ac Orange o hyd yn gwrthod ateb llythyron yn erfyn arnynt i gynnig rhywfaint o wasanaeth yn Gymraeg.

Mae'r ddeddf bresennol ond yn eiriau da ar bapur. Mae uwch-swyddogion cyrff cyhoeddus yn brolio am eu polisïau iaith bondigrybwyll ond fel y weler o ffotos mae'n ddigon hawdd iddynt beidio ag ymdrechu i weithredu.

Rwyf yn gobeithio'n fawr byddwch yn llunio deddf iaith go-iawn sydd yn sicrhau bod cyrff yn cadw at eu polisïau a bod siopau mawrion a chwmnïau teleffonau symudol yn cydnabod yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg.

Yn gywir



Huw Jones

SWYDDFA'R POST

(COPI)

18 Church Street
Llangefni
LL77 7DY

Dear Sir,

Thank you for your letter. Unfortunately you have not provided an english version.

I have forwarded your letter to the Post Office Customer Care in Barnsley.

Thank you

POST OFFICE
travel services
bureau de change cambio wechsel
T YOUR HOLIDAY OFF
A FLYING START.
XIT
Mowth
March
2

POST OFFICE
Bureau De Change
travel money
this way

Office
Stationery & Office


Special Notice
to all our customers
PLEASE
QUEUE
HERE FOR
BUREAU
Special Notice
THIS IS A
QUEUE FOR
FOREIGN
CURRENCY
ONLY
THANK YOU

going abroad?
don't forget to ask about
travellers cheques

Special Notice
to all our customers
PLEASE DO NOT
RING THIS BELL
STAFF ONLY
POST OFFICE

POST OFFICE
travel services
bureau de change cambio wechsel